# Gwybodaeth am gerdyn prynu'r Cynulliad

*19/11/2010*

**Cais am wybodaeth.**

Cyfeiriaf at eich cais a ddaeth i law ar 20 Medi 2010 pan wnaethoch ofyn,

*Mewn perthynas â Rhaglen Cardiau Prynu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a fyddech cystal â datgelu faint a wariwyd ar gardiau yn ystod pob un o'r tair blynedd ariannol ddiwethaf.*

*Gofynnaf i chi gynnwys yr holl dalebau a gafwyd ar ôl defnyddio'r cardiau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009/2010 a'r flwyddyn ariannol 2010/2011 hyd yma.*

Ar 18 Hydref, anfonais ateb interim i chi a oedd yn cynnwys defnydd misol a blynyddol y rhaglen ar gyfer blynyddoedd ariannol 2008/2009 a 2009/2010, yn ogystal â thri mis cyntaf y flwyddyn ariannol gyfredol.

Yn awr, gallaf ddarparu atodlenni sy'n amlinellu'r trafodion unigol ar gyfer 2009/2010 a thri mis cyntaf y flwyddyn ariannol gyfredol. Os oes angen gwybodaeth arnoch am y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2010 a mis Medi 2010, bydd y wybodaeth hon ar gael tuag at ddiwedd y mis hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gallu rhoi gwybod i mi fod angen y wybodaeth hon arnoch neu unrhyw wybodaeth arall am y flwyddyn ariannol gyfredol.

Sylwer bod Lyreco yn darparu offer swyddfa i'r Cynulliad, ac mai Chartlon House sydd â chontract arlwyo mewnol y sefydliad.

Ymddiheuraf am yr oedi cyn rhoi ateb llawn i'ch cais. Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm. Cysylltwch â mi oes oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn.

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn iawn yn eich barn chi, neu os nad ydych yn credu fy mod

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 898889
E-bost/Email:Kevin.willoughby@wales.gov.uk

wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire/Sir Gaer
SK9 5AF

Yn gywir

Kevin Willoughby
Rheolwr Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru